# Llanengan i Aberdaron





**Roedd Sant Engan (Einion) yn frenin ar Ben Llŷn ar ddiwedd y 5ed ganrif. Fe roddodd Enlli i Sant Cadfan (a Phenmon ar Ynys Môn i'w frawd Seiriol).**
**Er bod rhannau o eglwys Sant Engan yn dyddio o'r 13eg ganrif, cafodd y rhan fwyaf o'r eglwys ei hadfer yn y 16eg ganrif. Mae pâr o sgriniau cerfiedig godidog o'r 16eg ganrif yn yr eglwys, y mae'n bosibl bod un ohonynt wedi'i symud o Abaty Cymer, ger Dolgellau.**
**Credir bod Ffynnon Engan yn dyddio'n ôl i ddiwedd yr 16eg ganrif, os nad yn gynharach. Byddai'r safle, sy'n un rhestredig Gradd II erbyn hyn, wedi bod yn gyrchfan i bererinion, ac roedd yn adnabyddus am nifer o wyrthiau yn ogystal â bod yn lleoliad bedyddio.**

Lleoliadau Stampiau: Eglwys Engan Sant, Llanengan. Eglwys Maelrhys Sant, Llanfaelrhys.

## Cyfarwyddiadau:

1. O fynedfa Sant Engan, cerddwch yn syth ymlaen a thrwy borth y fynwent at y ffordd. Trowch i'r dde a pharhewch ar y ffordd am ryw 300 metr tan i chi gyrraedd arwydd llwybr troed ar y dde sy'n arwain at giât mochyn. Cadwch y ffens ar eich dde tan i chi weld yr agoriad yn y ffens. Ewch drwy hwn ac yna cerddwch at y bont yng nghanol y cae. Cerddwch at gornel y ffens sy'n estyn allan i mewn i'r cae lle mae giât droed a dilynwch y ffens ar y dde, dros y grisiau cerrig a'r giât i mewn i'r cae nesaf. Cadwch y ffens ar eich ochr dde nes bod yr afon ar eich dde. Yna ewch drwy'r giât i gerdded ar hyd cefn fferm a thros y gamfa gerrig ymlaen i'r ffordd.

2. Croeswch y ffordd ac ewch ychydig i'r dde tuag at giât llwybr troed (dilynwch yr arwyddion ar gyfer Llwybr yr Arfordir tan bwynt 5) sy'n eich arwain i mewn i gae gyda nant lydan a phont. Cadwch y ffin ar eich chwith hyd at y wal ar y pen, yna dilynwch y ffin tan tua hanner ffordd ar hyd y cae lle mae giât droed. Cadwch i'r chwith i gyrraedd giât arall ac yna dilynwch drywydd yr afon trwy'r ddau gae nesaf. Yn y cae nesaf, anelwch yn syth am yr adeilad ar ben pellaf y cae.

3. Unwaith i chi gyrraedd yr adeilad, fe sylwch chi ar drac. Cerddwch tuag ato ac yna ewch drwy'r giatiau troed (sydd â phont rhyngddynt). Unwaith y byddwch chi yn y cae, trowch i'r chwith a dilynwch y ffin gan basio'r gornel i gyrraedd giât mochyn. Dilynwch y ffens ar y chwith i gyrraedd giât arall, yna trowch i'r dde a dilynwch y ffin tan i chi gyrraedd giât mochyn sy'n mynd â chi i mewn i'r cae nesaf.

4. Yn y cae nesaf, trowch i'r chwith gan ddilyn y ffin i gyrraedd giât. Cerddwch yn syth ar draws y cae nesaf a thrwy giât, yna anelwch am yr adeilad sydd hanner ffordd ar draws y cae. Ychydig cyn yr adeilad, trowch i'r dde a cherddwch at giât y llwybr troed a phont. Unwaith i chi fynd dros y bont, edrychwch ar draws y cae ac ychydig i'r dde i weld arwydd Llwybr yr Arfordir. Cerddwch tuag ato yna ewch ymlaen i'r cae nesaf sydd ychydig yn llai. Cerddwch ymlaen wrth ochr y tŷ, yna ewch ychydig i'r dde lle mae giât droed gudd sy'n mynd â chi at y ffordd.

5. Trowch i'r chwith ar y ffordd a cherddwch am tua 2km. Wrth groesffordd fach, trowch i'r chwith tuag at wersyll Treheli, gan ddilyn arwydd Llwybr yr Arfordir a phasio Treheli. Ar ôl tua 300m, trowch i'r dde i ail-ymuno â'r briffordd. Croeswch y ffordd, trowch i'r dde a bron yn syth i'r chwith mae yna agoriad i'r llwybr troed. Ewch drwyddo a cherddwch i fyny ac i'r chwith, gan ddilyn y llwybr wrth iddo arwain trwy'r coed a thros sawl gris bach carreg. Pan mae'r llwybr yn rhannu ychydig, cadwch i'r dde, gan barhau am i fyny. Mae'r llwybr yn dod allan wrth ymyl bwrdd gwybodaeth â map arno a thai bach, siop a chaffi'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac yna mae'n arwain drwodd at Blas yn Rhiw, maenordy o'r 17eg ganrif, gerddi a chaffi. Rhagor o wybodaeth.

6. Cerddwch drwy'r adeiladau cyntaf i gyrraedd y ffordd darmac, yna trowch i'r dde a cherddwch i fyny rhiw serth. Cerddwch am i fyny ar y ffordd am ryw 250 metr, gan gadw i'r chwith ar y ffordd darmac wrth y gyffordd fach i gyrraedd arwydd llwybr troed ar gyfer Llwybr yr Arfordir a chamfa gerrig ar y chwith. Unwaith i chi fynd i mewn i'r cae, cerddwch i'r gornel bellaf ar y dde tuag at giât ac yna, yn y cae nesaf, ewch dros ddwy bont ac yna trwy giât mochyn.



**Mae Ffynnon Aelrhiw (sy'n aml wedi'i gorchuddio â llystyfiant) yn fasn hirsgwar o'r 17eg ganrif sydd â statws rhestredig Gradd II. Mae cerrig mwy yn ei hamgylchynu ac mae yna dystiolaeth o seddi cerrig fflat. Roedd pobl yn arfer ymweld â'r ffynnon hon yn y gobaith o gael gwellhad o glefydau'r croen.**

7. Yng nghornel bellaf y cae nesaf, mae camfa gerrig a phren ddwbl yn mynd â chi i mewn i'r cae ar draws i'r dde o'r un diwethaf. Ewch dros y gamfa gerrig, cadwch at y llwybr ac yna ewch drwy giât y fferm a thuag at adeilad y fferm. Ewch drwy giât mochyn arall wrth ymyl adeilad y fferm ac yna byddwch chi'n dod allan ar ffordd fach darmac.

8. Ewch i'r dde ar y ffordd am ryw 100 metr tuag at yr arwyddion ar gyfer Llwybr yr Arfordir sy'n eich arwain i'r chwith i ffwrdd o'r ffordd rhwng rhai adeiladau. Parhewch i lawr y trac tuag at hen giât fawr rydlyd. Unwaith i chi fynd trwyddi, dilynwch y ffin ar eich chwith i lawr llwybr llydan glaswelltog da. Pasiwch res o dai ar eich ochr dde ac ewch drwy giât arall. Pan fyddwch chi'n cyrraedd y tŷ gwyn (Syntir) a'r arwydd llwybr troed, trowch i'r dde. Ar ôl gadael wal y tŷ gwyn, cerddwch ar hyd y wal sydd ar waelod ffin rhai caeau bach tan i chi gyrraedd y gornel bellaf. O gornel y wal, gadewch y waliau a dilynwch y llwybr sy'n mynd ychydig i fyny ac i'r dde. Dilynwch y llwybr gan basio top rhai caeau bach eraill. Pasiwch heibio brig mawr caregog ar y dde cyn cyrraedd giât mochyn ac arwyddion ar gyfer Llwybr yr Arfordir.

9. Trowch i'r chwith ac i lawr y llethr ar ôl i chi fynd drwy'r giât mochyn, pasiwch y gwaith carthion a chadwch i'r dde ar unrhyw lwybrau sy'n rhannu, gan barhau ar hyd y ffin. Trowch i'r dde wrth Fferm Penarfynydd (dylech allu gweld yr eglwys nesaf oddi yma), ewch drwy giât y fferm ac yna cerddwch rhwng yr adeiladau tuag at y trac. Ewch ar draws y trac ac i mewn i'r cae ar yr ochr dde. Cadwch y ffin ar eich ochr chwith tan ddiwedd y cae. Yn y cae nesaf, croeswch drosodd i mewn i'r cae ar yr ochr chwith a dilynwch y ffin ar y dde tan i chi gyrraedd giât mochyn a ffordd.

10. Trowch i'r chwith ar y ffordd a cherddwch at y gyffordd nesaf. Trowch yn sydyn i'r chwith a dilynwch y ffordd tan i chi gyrraedd Eglwys Sant Maelrhys, Llanfaelrhys.



**Mae Eglwys Sant Maelrhys yn eglwys ganoloesol, er bod addasiadau hwyrach i'r adeilad. Roedd Sant Maelrhys yn gefnder i Sant Cadfan a Sant Hywyn, ac fe ddaeth i Lŷn gyda nhw yn y 6ed ganrif. Mae'n ddiddorol gweld y rhaniad mewn dosbarthiadau cymdeithasol yma gyda meinciau caeedig ('box pews') ar un ochr a meinciau syml ar yr ochr arall. Roedd y bardd a'r offeiriad R.S Thomas yn ficer yma. Mae'r ystafell/llofft fyny grisiau wedi'i chysegru iddo. Gyda golygfa o Ynys Enlli, gall pererinion eistedd a darllen, neu wrando ar gerddoriaeth sy'n gysylltiedig â'i waith. Rhagor o wybodaeth**

11. Ar ôl i chi ymweld â'r eglwys, trowch i'r dde ar y ffordd a pharhewch tuag at y gyfres gyntaf o adeiladau â'r arwydd 'Ysgo'. Cerddwch heibio'r adeilad bach cyntaf i'r chwith ac yna trowch i'r chwith, gan gerdded o amgylch yr adeilad bach hwn i gyrraedd giât mochyn ac arwyddion ar gyfer Porth Ysgo. Ewch i lawr y cwm bach hudolus a throwch i'r dde (oddi ar y llwybr da) tuag at nant fach i gyrraedd pont droed. Parhewch o'r fan hon ar Lwybr yr Arfordir (gan gadw'r môr i'ch ochr chwith a dilyn arwyddion Llwybr yr Arfordir), dros a thrwy amryw bontydd a giatiau mochyn tan i chi ddod amgylch pentir lle byddwch chi'n gallu gweld ar draws y traeth i Aberdaron.

12. O'r giât mochyn lle gallwch chi weld Aberdaron: Ewch dros bont fach a thrwy giât mochyn arall sy'n dechrau arwain i ffwrdd o'r arfordir. Ewch drwy giât mochyn arall sy'n eich arwain ar hyd llwybr â ffens. Ewch drwy ddwy giât mochyn arall ac yna ewch i'r chwith. Cadwch y ffin ar eich dde i gyrraedd giât mochyn sy'n arwain at drac graean. Trowch i'r dde ar y trac graean i gyrraedd ffordd darmac. Ar ochr arall y ffordd ar ochr dde'r adeiladau mae yna giât mochyn ac arwydd ar gyfer Llwybr yr Arfordir.

13. Cadwch i'r ffin ar y chwith i gyrraedd giât mochyn a llwybr sy'n eich arwain i lawr at bont droed mewn cwm. Ewch dros y bont ac yna trowch i'r chwith gan gadw wrth ymyl yr afon am ryw 750 metr lle mae'r llwybr yn codi am i fyny ychydig, trwy giât ac ar hyd llwybr â gwrychoedd ar y naill ochr a'r llall. Dilynwch y llwybr hwn i mewn i Aberdaron. Trowch i'r chwith ymlaen i'r ffordd ac i lawr tuag at bont fach dros y ffordd, gan droi i'r dde ychydig cyn y bont i gyrraedd tai bach a maes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

**Dechreuodd Aberdaron fel pentref bach pysgota a dyma oedd y man gorffwys olaf i bererinion ar y daith i Enlli. Yn y 18fed a'r 19eg ganrif, datblygodd Aberdaron yn ganolfan adeiladu llongau a phorthladd oedd yn cefnogi'r diwydiant mwyngloddio lleol. Mae Aberdaron wedi dod yn gyrchfan boblogaidd ar gyfer gwyliau glan môr.**

